Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Annwyl Elin,

2 Mai 2018

Yn ystod fy ymddangosiad yn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 16 Ebrill, trafodwyd y ffordd y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhannu gwybodaeth yn ymwneud â Brexit ag Aelodau'r Cynulliad. Mae'r rhan berthnasol o'r trawsgrifiad drafft ynghlwm wrth y llythyr hwn. O'i darllen, byddwch yn nodi bod Cadeirydd y Pwyllgor wedi mynegi pryderon ei bod hi'n ymddangos bod Aelodau'r Cynulliad yn cael eu trin mewn ffordd wahanol i Aelodau Seneddol. Cytunais i ysgrifennu i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r mater hwn. Fodd bynnag, cyn imi ysgrifennu fel yr awgrymwyd, hoffem gael eich barn chi ar un agwedd. Fel yr amlinellwyd yn y trawsgrifiad drafft, mae gennyf rai amheuon a ddylai un o Weinidogion Cymru ysgrifennu ynglŷn â rhywbeth sy'n fater i'r ddeddfwrfa mewn gwirionedd. Pe baech chi'n credu, er enghraifft, y byddai'n fwy priodol i chithau ysgrifennu'r fath lythyr, byddwn i'n fodlon iawn dilyn y cyngor hwnnw.

Os byddwch chi'n dod i'r casgliad y byddai'n well gweithredu fel yr awgrymwyd yn y Pwyllgor, byddwn i'r un mor barod i ysgrifennu'r llythyr fy hun. Byddwn yn ddiolchgar iawn am eich barn ar y mater hwn.

Yn gywir,
Mark.

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.